Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

**Cynllun Datblygu Lleol**
**2011 - 2026**

# Yr Amgylchedd Hanesyddol

## Canllawiau Cynllunio Atodol

### Atodlen o Strwythurau Camlesi Dynodedig

(Ebrill 2019)







www.npt.gov.uk/ldp

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Atodlen o Strwythurau Camlesi Dynodedig

**Rhestr Camlesi** ........ **1**

Rhestr Strwythurau Camlas Dynodedig ........ 1

Camlas Tawe ........ 2

Camlas Tenant ........ 42

Camlas Nedd ........ 86

# Mynegai

# Rhestr Camlesi

## Rhestr Strwythurau Camlas Dynodedig

## Camlas Tawe

<table>
<tr><td>Ward: Trebannws</td><td>Anheddiad: Trebannws</td><td colspan="2">Enw’r Adeilad: Loc 8, Trebannws, traphont a Loc 9</td></tr>
<tr><td>Cyf: SCA001</td><td>Cam Dilysu I:</td><td>Cam II:</td><td>Cyfeirnod Grid: E271170 N202651</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfeiriad: Y Maes</td></tr>
</table>

Cynllun o Leoliad y Safle



**Description:** Disgrifiad: Dwy loc a wahanir gan adran fer o gamlas a thraphont yn cario lôn. Parapetau brics newydd i'r bont, fel arall heb ei hadfer i raddau helaeth ac mae’r dŵr yn dal i lifo yno.

Lock 8





Lock 9



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad Hanesyddol / Diwylliannol | X | Gwerth o ran Cymeriad y Grŵp / yr Anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy’n Hen neu’n Brin | |

**Cyfiawnhad dros Ystyried:** Strwythurau camlas pwysig sy'n dal i fodoli yn eu cyflwr gwreiddiol. Gweddillion hanesyddol sy'n darparu cofnod o hanes trafnidiaeth diwydiannol yr ardal leol.

**Nodiadau:** Mae SCA001 yn cynnwys Loc Isaf Trebannws (8), pownd a nodweddion rhwng lociau 8 a 9, pont ffordd drosto a Loc Dukes/Loc Uchaf Trebannws (9).

| | | |
|---|---|---|
| **Ward:** Trebannws | **Anheddiad**: Trebannws | **Enw'r Adeilad:** ADEILAD RHESTREDIG: Llifddor allfa a gorlif lluosog |
| **Cyf:** LB: 11201 | | **Cyfeirnod Grid:** E271255 N202774 |
| **Cyfeiriad**: Y Maes | | |


Cynllun o Leoliad y Safle



| |
|---|
| **Disgrifiad:** Llifddor allfa a gorlif, coredau tywodfaen bychain ar ffurf grisiau o Gamlas Tawe i Afon Tawe. Ar ben y coredau, yn ymyl y llwybr halio ar yr ochr dde-ddwyreiniol, mae siambr gorlif sylfaenol 2-fae, y dywedir ei fod wedi'i leinio â phren yn rhannol, gyda llifddor daear cysylltiol ag offer padlo gweithredol i'r gogledd. Ers 1979 mae'r ardal hon wedi cael ei gorchuddio'n rhannol a gosodwyd peirianwaith rheoli C20 yn ei le. Mae'r gorlif eilaidd uwchben y gored yn dal yno. |
| **Rheswm dros Ddynodi:** Rhestrwyd fel llifddor gorlif o ddiwedd y 18fed ganrif sydd â phwysigrwydd hanesyddol ar y gamlas bwysig hon. |
| **Nodiadau:** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ward:** Pontardawe | **Anheddiad:** Pontardawe | **Enw'r Adeilad:** ADEILAD RHESTREDIG: Dyfrbont a Gorlif Clydach Uchaf. | |
| **Cyf: LB: 11199** | | | **Cyfeirnod Grid:** E272118 N203939 |
| **Cyfeiriad:** Stryd Herbert | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



**Disgrifiad:** Dyfrbont y gamlas dros yr afon, bwa segmentaidd o gerrig rwbel gyda voussoirs, cwmpas o 7.5m a rhyw

1.7m o uchder, gyda 2 orlif ar yr ochr ogledd-orllewinol. Parapet o gerrig sgwâr gyda chopaon sorod copr ar yr ochr dde-ddwyreiniol, sy'n cynnal bwtresi bob ochr, ond gyda phatsio mewn brics glas a choch a bloc sment ar hanner gogleddol yr wyneb.




**Rheswm dros Ddynodi:** Wedi'i gynnwys fel un o nodweddion pwysig un o gamlesi pwysicaf Cymru

**Nodiadau:**

| | | |
|---|---|---|
| **Ward:** Pontardawe | **Anheddiad:** Pontardawe | **Enw'r Adeilad:** ADEILAD RHESTREDIG: Traphont Ynysmeudwy Isaf |
| **Cyf: LB: 80995** | | **Cyfeirnod Grid:** E272800 N204600 |
| **Cyfeiriad**: Heol Aberhonddu | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



Disgrifiad: Traphont y Gamlas, pont bwa sengl o gerrig rwbel. Bwa segmentaidd gyda voussoirs cerrig wedi'u torri mewn modd addurniedig. Mae'r cynaliadau'n troi allan bob ochr i'r colofnau ymyl sgwâr. Parapetau o slabiau cerrig rwbel mawr, rhai ar yr ochr dde-orllewinol wedi cael eu symud, a chopaon sment wedi'u gosod yn eu lle. Mae parapet y de-orllewin a cholofn y gogledd-ddwyrain ar ochr y llwybr halio wedi cael eu trwsio â brics coch.




**Cyfiawnhad dros Ystyried:** Wedi'i chynnwys fel traphont gyfan dros y gamlas, yn dyddio o ddiwedd y 18fed ganrif, mae'n debyg.

**Nodiadau:**

| **Ward:** Pontardawe | **Anheddiad:** Ynysmeudwy | **Enw'r Adeilad:** Traphont Ynysmeudwy Ganol. **RHESTREDIG** | |
|---|---|---|---|
| **Cyf: LB: 80994** | Cam Dilysu I: | Cam II: | **Cyfeirnod Grid:** E273257 N205009 |
| **Cyfeiriad**: Heol Newydd | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



**Disgrifiad:** Pont un bwa cerrig rwbel. Bwa segmentaidd gyda voussoirs cerrig wedi'u torri mewn modd addurniedig. Mae'r cynaliadau'n troi allan bob ochr i'r colofnau ymyl sgwâr. I'r gogledd mae'r parapet wedi cael ei estyn heibio i'r colofnau ar y pen. Mae gan y parapetau a'r colofnau gopaon sment crwn.




**Cyfiawnhad dros Ystyried:** Wedi'i chynnwys fel traphont gyfan dros y gamlas, yn dyddio o ddiwedd y 18fed ganrif, mae'n debyg.

**Nodiadau:**

| **Ward:** Pontardawe | **Anheddiad:** Ynysmeudwy | **Enw'r Adeilad::** Loc Isaf Ynysmeudwy (12) a Chaban y Fforddoliwr | |
|---|---|---|---|
| **Cyf: SCA002** | Cam Dilysu I: | Cam II: | **Cyfeirnod Grid:** E273810 N205555 |
| **Cyfeiriad**: Heol Ynysmeudwy | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



**Disgrifiad:** Siambr loc sydd wedi goroesi, gyda chored yn cymryd lle'r gât uchaf. Mae gwneuthuriad siambr y loc yn dangos tystiolaeth o waith ailadeiladu ddwywaith o leiaf. Mae cynhaliaeth haearn bwrw gyda geriau padlo, sy'n nodweddiadol o Gamlas Tawe, ac yn unigryw iddi, wedi goroesi ar ochr y cwm o'r loc. Mae'n cynnwys caban, y mae ei oed yn ansicr, yn ymyl y loc, gyda waliau wedi rendro, drws haearn gyr a lle tân.






| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad Hanesyddol / Diwylliannol | X | Gwerth o ran Cymeriad y Grŵp / yr Anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy'n Hen neu'n Brin | X |

**Cyfiawnhad dros Ystyried:** Nodwedd arwyddocaol wreiddiol sydd wedi goroesi ar y gamlas, gwerth grŵp gyda strwythurau eraill y gamlas

**Nodiadau: Coflein:** Mae'n bosibl mai'r caban hwn yw'r unig beth sydd wedi goroesi ar y gamlas hon o 'safle fforddoliwr', lle gellid casglu tollau mewn rhywfaint o gysur os oedd tân ar yr aelwyd. Roedd y to uwchben hefyd yn sicrhau bod llyfr log y tollau (y mae rhai ohonynt wedi goroesi) yn cael ei amddiffyn rhag y tywydd. Roedd bwriad gan gwmni'r gamlas i osod tŷ ar gyfer y fforddoliwr yn agos at y fan hon yn 1826 ac mae'n bosibl mai dyma ganlyniad y cam hwnnw.

| **Ward:** Pontardawe | **Anheddiad:** Ynysmeudwy | **Enw'r Adeilad:** Loc Uchaf Ynysmeudwy (13) | |
|---|---|---|---|
| **Cyf: SCA003** | Cam Dilysu I: | Cam II: | **Cyfeirnod Grid:** E273934 N205617 |
| **Cyfeiriad**: Heol Ynysmeudwy | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



**Disgrifiad:** Loc sydd wedi goroesi mewn cyflwr da gyda thystiolaeth o ddau gyfnod adeiladu, a gweddillion rhoden badlo uwch a grisiau nodweddiadol i lawr i lwyfan trawst cydbwyso'r gatiau isaf. Mae coredau wedi disodli'r gatiau ar y ddwy loc.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad Hanesyddol / Diwylliannol | X | Gwerth o ran Cymeriad y Grŵp / yr Anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy'n Hen neu'n Brin | |

**Cyfiawnhad dros Ystyried:** Nodwedd arwyddocaol wreiddiol sydd wedi goroesi ar y gamlas, gwerth grŵp gyda strwythurau eraill y gamlas.

**Nodiadau:** Disgrifiad Coflein fel SCA002 uchod

| | | |
|---|---|---|
| **Ward:** Pontardawe | **Anheddiad:** Ynysmeudwy | **Enw'r Adeilad:** ADEILAD RHESTREDIG: Traphont Ynysmeudwy Uchaf |
| **Cyf: LB 11024** | | **Cyfeirnod Grid:** E274063 N205713 |
| **Cyfeiriad**: Heol Ynysmeudwy | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



| |
|---|
| **Disgrifiad:** Pont un bwa cerrig rwbel. Bwa segmentaidd gyda voussoirs cerrig wedi'u torri mewn modd addurniedig a soffit o 5 asen haearn wedi'u bolltio ar y ddau ben. Mae'r parapetau o slabiau cerrig rwbel mawr ar yr ochr ogledd-orllewinol yn unig, a rhagdybir bod y gweddill wedi cael eu clirio a'u trwsio â sment. Bwtres bychan ar ochr llwybr halio'r gogledd-ddwyrain. Ar yr ochr hon mae mynediad ar hyd ramp hefyd i lefel y llwybr halio.  |
| **Rheswm dros Ddynodi:** Wedi'i chynnwys fel traphont gyfan dros y gamlas, o ddiwedd y 18fed ganrif. |
| **Nodiadau:** |

| | | |
|---|---|---|
| **Ward:** Pontardawe/Godre'r Graig | **Anheddiad:** Ynysmeudwy | **Enw'r Adeilad:**ADEILAD RHESTREDIG: Dyfrbont Nant Ddu |
| **Cyf: LB: 11023/80811** | | **Cyfeirnod Grid:** E274119 N205765 |
| **Cyfeiriad**: **Heol Ynysmeudwy** | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



**Disgrifiad:** Dyfrbont fechan ar yr echel ogledd-ddwyreiniol/dde-orllewinol. Cerrig sgwâr gyda voussoirs a bwa segmentaidd rhyw 0.6 metr o uchder a 4.1 metr o rychwant.



**Disgrifiad:** Wedi'i chynnwys oherwydd gwerth grŵp gyda phont Uchaf Ynysmeudwy ac arllwysfa a llifddor gorlif Cwm Du.

**Nodiadau:**

| | | |
|---|---|---|
| **Ward:** Godre'r Graig | **Anheddiad:** Ynysmeudwy | **Enw’r Adeilad:**ADEILAD RHESTREDIG: Arllwysfa Cwm Du a'r llifddor gorlif |
| **Cyf: LB: 11202** | | **Cyfeirnod Grid:** E274150 N205805 |
| **Cyfeiriad**: Heol Ynysmeudwy | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



**Disgrifiad:** Dwy siambr, y gyntaf yn siambr gorlif â leiniwyd â cherrig, sydd bellach wedi'u gorchuddio â phlatiau metel gyda blwch rheoli metel wedi'i baentio'n ddu arnynt. Mae'r ail i'w gweld, er ei bod wedi'i gorchuddio gan grid metel, ac mae'n siambr ag wyneb cerrig, gyda wal siâp bwa yn y pen ac allfa fwaog fechan*.




**Rheswm dros Ddynodi:** Wedi'i chynnwys oherwydd gwerth grŵp gyda Dyfrbont Cwm Du a Phont Uchaf Ynysmeudwy.

**Nodiadau:** *Disgrifiad rhestru llawn: Dywedir ei bod yn cynnwys dwy siambr, y gyntaf wedi'i disgrifio yn rhestriad 1979, sef siambr gorlif wedi'i leinio â cherrig, gyda wal raniad gyda 4 planc atal a chyfarpar padlo wedi'u cynnwys ar ochr y gamlas. Mae'r siambr hon bellach wedi'i gorchuddio â phlatiau metel, gyda blwch rheoli metel wedi'i baentio'n ddu arnynt. Mae'r ail un ar ochr dde-ddwyreiniol y gwahanfur i'w gweld, er bod grid metel drosti. Siambr ag wyneb carreg yw hon, gyda wal siâp bwa ar y pen ac allfa fechan â bwa. [Wedi'i blotio'n anghywir ar GIS]

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ward:** Godre'r Graig | **Anheddiad:** Cilmaengwyn | **Enw'r Adeilad:** Traphont Cilmaengwyn | |
| **Cyf: SCA004** | Cam Dilysu I: | Cam II: | **Cyfeirnod Grid:** E274251 N205945 |
| **Cyfeiriad**: Heol Cilmaengwyn | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



**Disgrifiad:** Traphont bwa sengl cerrig gyda pharapetau estynedig a phileri a dolen â ramp i'r llwybr halio.



| Diddordeb Pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad Hanesyddol / Diwylliannol | X | Gwerth o ran Cymeriad y Grŵp / yr Anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy'n Hen neu'n Brin | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Cyfiawnhad dros Ystyried:** Nodwedd arwyddocaol wreiddiol sydd wedi goroesi ar y gamlas, gwerth grŵp gyda strwythurau eraill y gamlas

**Nodiadau:** Coflein: Adeiladwyd Traphont Cilmaengwyn ar Gamlas Tawe ar ddiwedd y 18fed ganrif. Mae ganddi fwa segmentaidd a voussoirs cerrig.

| **Ward:** Godre'r Graig | **Anheddiad:** Cilmaengwyn | **Enw'r Adeilad:** Loc Uchaf Cwm Tawe Isaf / Cilmaengwyn (14) | |
|---|---|---|---|
| **Cyf: SCA005** | Cam Dilysu I: | Cam II: | **Cyfeirnod Grid:** E274493 N206241 |
| **Cyfeiriad**: Heol Cilmaengwyn | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



**Disgrifiad:** Loc o waith cerrig gyda grisiau i lawr i lwyfan trawst cydbwyso'r gatiau isaf. Mae coredau wedi disodli gatiau'r loc.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad Hanesyddol / Diwylliannol | X | Gwerth o ran Cymeriad y Grŵp / yr Anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy'n Hen neu'n Brin | |

**Cyfiawnhad dros Ystyried:** Nodwedd arwyddocaol wreiddiol sydd wedi goroesi ar y gamlas, gwerth grŵp gyda strwythurau eraill y gamlas.

**Nodiadau: Coflein:** Loc 14 neu Loc Cwm-tawe-isaf neu Gilmaengwyn (SN 7448 0623, 16,530m o Abertawe). Mae mewn cyflwr gweddol, er bod gordyfiant, ac mae gweddillion cylchoedd haearn gyr, sy'n cwmpasu colyn un o'r gatiau loc isaf sy'n pydru.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ward:** Godre'r Graig | **Anheddiad:** Godre'r Graig | **Enw'r Adeilad::** ADEILAD RHESTREDIG: Traphont yng Nghwm Tawe Isaf. | |
| **Cyf: LB: 80810** | Cam Dilysu I: | Cam II: | **Cyfeirnod Grid:** E274830 N206410 |
| **Cyfeiriad**: Heol y Graig | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



**Disgrifiad:** Traphont y Gamlas, pont grwca bwa sengl o gerrig rwbel. Bwa segmentaidd gyda voussoirs cerrig wedi'u torri mewn modd addurniedig, yr un ar yr ochr ddwyreiniol yn cynnwys ysgythriad ffigurau, 1797 o bosibl. Mae'r cynaliadau'n troi allan bob ochr i'r colofnau ymyl sgwâr. Grisiau diweddarach, 10 ohonynt, o ddiwedd y 19eg ganrif, ar yr ochr dde-orllewinol. Mae gan y parapetau a'r colofnau gopaon sment crwn.



**Rheswm dros Ddynodi:** Wedi'i chynnwys fel traphont gyfan dros y gamlas, yn dyddio o ddiwedd y 18fed ganrif, mae'n debyg

**Nodiadau:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ward:** Godre'r Graig | **Anheddiad:** Godre'r Graig | **Enw'r Adeilad:** Loc 15 | |
| **Cyf: SCA006** | Cam Dilysu I: | Cam II: | **Cyfeirnod Grid:** E275395 N206730 |
| **Cyfeiriad**: Yn ymyl yr A4067 | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



**Disgrifiad:** Gweddillion rhannol wal y loc (ochr ogledd-orllewinol)



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad Hanesyddol / Diwylliannol | X | Gwerth o ran Cymeriad y Grŵp / yr Anheddiad | | Adeiladau Lleol sy'n Hen neu'n Brin | X |

**Cyfiawnhad dros Ystyried:** Gweddillion loc mewn rhan o'r gamlas sydd fel arall wedi'i chuddio/dinistrio gan waith adeiladu ffordd newydd

**Nodiadau:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ward:** Godre'r Graig | **Anheddiad:** Godre'r Graig | **Enw'r Adeilad:** Loc 16 | |
| **Cyf: SCA007** | Cam Dilysu I: | Cam II: | **Cyfeirnod Grid:** E275665 N207148 |
| **Cyfeiriad**: Yn ymyl yr A4067 | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



**Disgrifiad:** Gweddillion rhannol waliau'r loc (ochr ogledd-orllewinol)



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad Hanesyddol / Diwylliannol | X | Gwerth o ran Cymeriad y Grŵp / yr Anheddiad | | Adeiladau Lleol sy'n Hen neu'n Brin | X |

**Cyfiawnhad dros Ystyried:** Gweddillion loc mewn rhan o'r gamlas sydd fel arall wedi'i chuddio/dinistrio gan waith adeiladu ffordd newydd

**Nodiadau:**

| | | |
|---|---|---|
| **Ward:** Godre'r Graig | **Anheddiad:** Godre'r Graig | **Enw'r Adeilad::** HENEB GOFRESTREDIG: Glofa Crimea a Chei'r Gamlas |
| **Cyf: SM: GM453** | | **Cyfeirnod Grid:** E275707 N207276 |
| **Cyfeiriad**: **Yn ymyl yr A4067** | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



| |
|---|
| **Disgrifiad:** Adfeilion peiriandy pwmpio stêm o waith cerrig, tŷ injan weindio a simne a fu'n gweithredu rhwng 1854 ac 1862, plws arglawdd tramffordd i lawr i safle tipio ar Gamlas Tawe.<br><br>[Dim ffotograffau] |
| **Rheswm dros Ddynodi:** Mae'r gofeb o bwysigrwydd cenedlaethol oherwydd ei photensial i wella ein gwybodaeth am y diwydiant mwyngloddio glo ar ddechrau'r 19eg ganrif. Mae'r safle'n arbennig o arwyddocaol oherwydd ei fod yn dangos cynllun cyflawn wyneb glofa yng nghanol y 19eg ganrif, heb i addasiadau neu ailddatblygu diweddarach amharu arno. |
| **Nodiadau:** |

| | | |
|---|---|---|
| **Ward:** Godre'r Graig | **Anheddiad:** Godre'r Graig | **Enw'r Adeilad::** HENEB GOFRESTREDIG: Loc 17 (Thick's Lock) a'r Doc Sych |
| **Cyf: SM: GM397** | | **Cyfeirnod Grid:** E275825 N207378 |
| **Cyfeiriad**: Yn ymyl Yr A4067 | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



**Disgrifiad:** Mae'r gofeb yn cynnwys gweddillion sylweddol Loc 17, Pant-y-ffynnon Isaf (neu Thick Lock) ar Gamlas Tawe a doc sych a ychwanegwyd at lwyfan y loc ar ôl 1875. Defnyddid ffordd osgoi'r loc i ddraenio'r doc pan fyddai angen i wneud gwaith cynnal a chadw ar gychod. Mae grisiau yn nhywodfaen rwbel yr ochr ddwyreiniol ac mae pyst pren gyda phennau slotiog yn parhau yng nghanol llawr palmant brics - roedd y rhain yn cynnal trawstiau i gario cychod oedd yn cael eu hatgyweirio. Mae'r grisiau troellog i lawr rhan isaf troed y loc yn unigryw, ac mae hon yn un o ddwy loc yn unig sydd â rhychau atal planciau hanner ffordd ar hyd siambr y loc. Mae gan wal orllewinol y doc bileri brics bychain a fu'n cynnal to, ac yn y gornel dde-orllewinol roedd aelwyd berwi pyg.



**Rheswm dros Ddynodi:** Mae'r gofeb o bwysigrwydd cenedlaethol oherwydd ei photensial i wella ein gwybodaeth am systemau atgyweirio cychod a thrafnidiaeth yn y 19eg ganrif

**Nodiadau:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ward:** Godre'r Graig | **Anheddiad:** Godre'r Graig | **Enw'r Adeilad:** Loc 18 | |
| **Cyf: SCA008** | Cam Dilysu I: | Cam II: | **Cyfeirnod Grid:** E275887 N207450 |
| **Cyfeiriad**: Yn ymyl yr A4067 | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



**Disgrifiad:** Loc Adfeiliedig



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad Hanesyddol / Diwylliannol | X | Gwerth o ran Cymeriad y Grŵp / yr Anheddiad | | Adeiladau Lleol sy'n Hen neu'n Brin | X |

**Cyfiawnhad dros Ystyried:** Gweddillion loc mewn rhan o'r gamlas sydd fel arall wedi'i chuddio/dinistrio gan waith adeiladu ffordd newydd

**Nodiadau:**

| **Ward:** Ystalyfera | **Anheddiad:** Ystalyfera | **Enw'r Adeilad:** Hafn lefel uchel yn y graig ar gyfer y gamlas | |
|---|---|---|---|
| **Cyf: SCA010** | Cam Dilysu I: | Cam II: | **Cyfeirnod Grid:** E276361 N208334 |
| **Cyfeiriad**: Y tu ôl i Heol y Cyfyng | | | |


Cynllun o Leoliad y Safle



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Disgrifiad:** Silff wedi'i thorri yn y graig ac arglawdd uchel ar gyfer Camlas Tawe yn Ystalyfera.<br><br>[Dim ffotograffau] | | | | | | | | | |
| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad Hanesyddol / Diwylliannol | X | Gwerth o ran Cymeriad y Grŵp / yr Anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy'n Hen neu'n Brin | X |
| **Cyfiawnhad dros Ystyried:** Enghraifft anghyffredin o waith peirianneg ar raddfa fawr sy'n gysylltiedig â'r gamlas. | | | | | | | | | |
| **Nodiadau:** | | | | | | | | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Ward:** Ystalyfera | **Anheddiad:** Ystalyfera | **Enw'r Adeilad:** HENEB GOFRESTREDIG AC ADEILAD RHESTREDIG (II*) Dyfrbont a Chored Afon Twrch. |
| **Cyf: SM: GM396; LB: 80809** | | **Cyfeirnod Grid:** E277270 N209240 |
| **Cyfeiriad**: Heol y Gurnos | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



**Disgrifiad:** Dyma'r fwyaf o'r dyfrbontydd oedd yn cario rhan o Gamlas wreiddiol Tawe, ac mae'n croesi Afon Twrch. Oherwydd bod yr afon yn llifo'n gyflym, roedd angen adeiladu cored o dan y ddyfrbont i ddiogelu'r colofnau a hefyd i weithredu fel bwydwr. Cyfanswm rhychwant y ddyfrbont, a adeiladwyd yn gyfangwbl o gerrig, yw 21m.




Google

**Rheswm dros Ddynodi:** Mae'r gofeb o bwysigrwydd cenedlaethol oherwydd ei photensial i wella ein gwybodaeth am dechnoleg a pheirianneg diwydiannol. Mae ganddi botensial archaeolegol sylweddol, gyda thebygolrwydd uchel o bresenoldeb nodweddion a gwaddodion archaeolegol cysylltiedig

**Nodiadau:**

## Camlas Tenant

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ward:** Gorllewin Coedffranc | **Anheddiad:** Jersey Marine | **Enw'r Adeilad:** Cynaliadau arglawdd y rheilffordd a dwy draphont reilffordd | |
| **Cyf: TCA001** | Cam Dilysu I: | Cam II: | **Cyfeirnod Grid:** E271908 N194220 |
| **Cyfeiriad**: Pant y Sais | | | |
| Cynllun o Leoliad y Safle   | | | |

**Disgrifiad:** Waliau cynnal blociau cerrig sylweddol ar gyfer hafn y gamlas trwy argloddiau'r rheilffordd. Strwythur bwaog o dan ddwy bont reilffordd haearn/dur, y bont orllewinol yn cario lein Twyni Crymlyn/Dociau Abertawe, a'r un ddwyreiniol bellach yn heol mynediad heb arwyneb.










| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad Hanesyddol / Diwylliannol | X | Gwerth o ran Cymeriad y Grŵp / yr Anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy'n Hen neu'n Brin | |

**Cyfiawnhad dros Ystyried:** Enghraifft arwyddocaol sydd wedi goroesi o beirianneg camlas a rheilffordd ar raddfa fawr o'r 19eg ganrif. Gwerth grŵp gyda strwythurau eraill y gamlas.

**Nodiadau:**

<table>
<tr><td>Ward: Gorllewin Coedffranc</td><td>Anheddiad: Jersey Marine</td><td colspan="2">Enw'r Adeilad: ADEILAD RHESTREDIG: Cored Colofn y Siaced Goch</td></tr>
<tr><td>Cyf: LB: 23077</td><td colspan="2"></td><td>Cyfeirnod Grid: E272404 N194667</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfeiriad: Colofn y Siaced Goch</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cynllun o Leoliad y Safle<br></td></tr>
</table>

| |
|---|
| **Disgrifiad:** Mae rhan uchaf y gored tua 5m o hyd, ac mae'r dŵr yn cael ei sianelu o'r gamlas trwy 6 cwlfer bas â bwâu segmentaidd o dan y llwybr halio. Mae'r bwâu wedi'u creu o dywodfaen nadd.<br><br>[Anhygyrch/wedi gordyfu: [Dim ffotograffau] |
| **Rheswm dros Ddynodi:** Rhestrwyd oherwydd diddordeb archaeolegol diwydiannol, fel elfen wreiddiol adeiledig o Gamlas Tenant, ac oherwydd gwerth grŵp gyda strwythurau eraill sy'n gysylltiedig â'r gamlas. |
| **Nodiadau:** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ward:** Gorllewin Coedffranc | **Anheddiad:** Llandarcy | **Enw'r Adeilad:** Traphont Reilffordd | |
| **Cyf: TCA002** | Cam Dilysu I: | Cam II: | **Cyfeirnod Grid:** E272392 N195041 |
| **Cyfeiriad**: Yn ymyl Depo Nwy Llandarcy | | | |
| Cynllun o Leoliad y Safle | | | |



**Disgrifiad:** Pont reilffordd haearn/ddur ar gynaliadau gwaith cerrig (yn dal i gael ei defnyddio).



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb Hanesyddol | X | Cysylltiad Hanesyddol / Diwylliannol | X | Gwerth o ran cymeriad y Grŵp/yr anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy'n Hen neu'n Brin | |

**Cyfiawnhad dros Ystyried:** Traphont reilffordd gyda chynaliadau gwaith cerrig sylweddol, yn croesi'r gamlas a'r llwybr halio. Gwerth grŵp gyda strwythurau eraill y gamlas.


**Nodiadau:**

| | | |
|---|---|---|
| **Ward:** Gorllewin Coedffranc | **Anheddiad:** Llandarcy | **Enw'r Adeilad:** ADEILAD RHESTREDIG: Traphont y Gamlas |
| **Cyf: LB: 23073** | | **Cyfeirnod Grid:** E272560 N195523 |
| **Cyfeiriad**: I'r dwyrain o Fferm Cwrt y Betws | | |
| Cynllun o Leoliad y Safle | | |



| |
|---|
| **Disgrifiad:** Pont undarn, un lôn gerbyd o gerrig rwbel gyda voussoirs addurniedig ar y bwa segmentaidd. Mae'r cynaliadau a'r parapet integrol yn troi allan.<br> |
| **Rheswm dros Ddynodi:** Rhestrwyd oherwydd gwerth grŵp gydag eitemau rhestredig eraill sy'n gysylltiedig â Chamlas Tenant. |
| **Nodiadau:** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ward:** Gorllewin Coedffranc/ Canol Coedffranc | **Anheddiad:** Sgiwen | **Enw'r Adeilad:** Traphont reilffordd bwaog | | |
| **Cyf: TCA003** | Cam Dilysu I: | Cam II: | **Cyfeirnod Grid:** E272814 N196353 | |
| **Cyfeiriad**: Glanfa Mynachlog Nedd | | | | |
| Cynllun o Leoliad y Safle | | | | |



**Disgrifiad:** Pont reilffordd bwaog sylweddol, wedi'i hadeiladu o gerrig, gyda bwa brics a chynaliadau helaeth.



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad Hanesyddol / Diwylliannol | X | Gwerth o ran Cymeriad y Grŵp / yr Anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy'n Hen neu'n Brin | |

**Cyfiawnhad dros Ystyried:** Traphont reilffordd drawiadol gyda chynaliadau gwaith cerrig sylweddol, yn croesi'r gamlas a'r llwybr halio. Gwerth grŵp gyda strwythurau eraill y gamlas.

**Nodiadau:**

| | | |
|---|---|---|
| **Ward:** Canol Coedffranc | **Anheddiad:** Mynachlog Nedd | **Enw'r Adeilad:** ADEILAD RHESTREDIG: Traphont y Gamlas |
| **Cyf: LB: 23069** | | **Cyfeirnod Grid:** E272980 N196640 |
| **Cyfeiriad**: I'r gorllewin o hen Waith Copr y Goron gynt | | |
| Cynllun o Leoliad y Safle | | |



**Disgrifiad: Pont undarn lydan, un lôn gerbyd, o feini llanw. Bwa segmentaidd sydd â voussoirs addurniedig. Mae parapet isel wedi cadw rhai meini copa sorod copr gwreiddiol ond mae fel arall yn ddeunydd newydd.**



**Rheswm dros Ddynodi:** Rhestrwyd oherwydd gwerth grŵp gydag eitemau rhestredig eraill sy'n gysylltiedig â Chamlas Tenant.

**Nodiadau:**

<table>
<tr><td>Ward: Canol Coedffranc Central/ Dyffryn Clydach</td><td>Anheddiad: Mynachlog Nedd</td><td colspan="2">Enw'r Adeilad: : ADEILAD RHESTREDIG: Pont dros ben deheuol Hafn Sgiwen</td></tr>
<tr><td>Cyf: LB: 11833/82343</td><td colspan="2"></td><td>Cyfeirnod Grid: E273140 N196910</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfeiriad: Ystâd Ddiwydiannol Mynachlog Nedd</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cynllun o Leoliad y Safle<br></td></tr>
</table>

**Disgrifiad:** Pont undarn, un lôn gerbyd o gerrig rwbel gyda voussoirs addurnedig ar y bwa segmentaidd. Mae'r cynaliadau a'r parapet integrol yn troi allan. Mae rhai copaon sorod copr yn dal ar y parapet ar yr ochr ogleddol, ond mae'r rhan fwyaf ohono wedi'i adnewyddu. Mae diwedd y parapet o frics ar yr ochr ogledd-ddwyreiniol, o gyrsiau sorod copr i'r de-ddwyrain, ac o frics a sorod i'r gogledd-orllewin. Mae concrid wedi'i osod ar y dec crwca.



**Rheswm dros Ddynodi:** Rhestrwyd oherwydd gwerth grŵp gydag eitemau rhestredig eraill sy'n gysylltiedig â Chamlas Tenant.

**Nodiadau:**

| | | |
|---|---|---|
| **Ward:** Canol Coedffranc I/ Dyffryn Clydach | **Anheddiad:** Mynachlog Nedd | **Enw'r Adeilad:** HENEB GOFRESTREDIG: Hafn Sgiwen a phont y dramffordd |
| **Cyf: SM: GM394** | | **Cyfeirnod Grid:** E273203 N197099 |
| **Cyfeiriad**: Ystâd Ddiwydiannol Mynachlog Nedd | | |
| Cynllun o Leoliad y Safle | | |



**Disgrifiad:** Mae'r gofeb yn cynnwys Hafn Sgiwen a'r bont dramffordd gysylltiedig, sydd wedi'i rhestru (Gweler hefyd LB23067 isod). Mae'n cynnwys gwely wedi'i leinio â cherrig, a osodwyd yn 1821 ar ffurf bwa â'i ben i lawr.



**Rheswm dros Ddynodi:** Mae'r gofeb o bwysigrwydd cenedlaethol gan ei bod yn enghraifft brin, mewn cyflwr da, o waith adeiladu camlas anghyffredin.

**Nodiadau:** Mae Pont y Dramffordd hefyd yn Adeilad Rhestredig (23067/82342)

| | | |
|---|---|---|
| **Ward: Canol** Coedffranc/ Dyffryn Clydach | **Anheddiad:** Mynachlog Nedd | **Enw'r Adeilad:** ADEILAD RHESTREDIG. Pont y Dramffordd |
| **Cyf. LB:** 23067/ 82342 | | **Cyfeirnod Grid:** E273260 N197400 |
| **Cyfeiriad**: Ystâd Ddiwydiannol Mynachlog Nedd | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



**Disgrifiad:** Pont cerrig rwbel uchel dros fwa segmentaidd gyda voussoirs addurnedig. Mae'r cynaliadau a'r parapet yn troi allan ar y ddau ben, ac mae cerrig copa concrid wedi'u hadnewyddu ar yr olaf. Mae rhagfur tolciog wedi'i ychwanegu at gilbost de-orllewinol y bwa. Gosodwyd concrid ar y dec gwastad, a adeiladwyd ar gyfer trac sengl.




**Rheswm dros Ddynodi:** Rhestrwyd oherwydd diddordeb archaeolegol diwydiannol fel pont dramffordd gynnar ac oherwydd gwerth grŵp gydag eitemau rhestredig eraill sy'n gysylltiedig â Chamlas Tenant.

**Nodiadau:** Mae hefyd yn rhan o Heneb Gofrestredig GM394

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ward:** Dyffryn Clydach | **Anheddiad:** Mynachlog Nedd | **Enw'r Adeilad:** ADEILAD RHESTREDIG: Pont dros y gamlas i'r gogledd o safle Mines Royal | |
| **Cyf: LB: 82341** | | | **Cyfeirnod Grid:** E273330 N197260 |
| **Cyfeiriad**: Ystâd Ddiwydiannol Mynachlog Nedd | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle




**Disgrifiad:** Pont, cerrig rwbel gyda rhai blociau o sorod ffwrnais. Bwa segmentaidd sengl gyda voussoirs tywodfaen. Parapetau rwbel gyda blociau copa sorod. Mewnlenwyd y ffordd â choncrid, a'i chodi ryw 60cm uwchben cerrig copa'r parapet. Mae proffil y cerrig copa sorod ar yr ochr ddwyreiniol yn chwarter cylch.



**Rheswm dros Ddynodi:** Wedi'i chynnwys oherwydd diddordeb trafnidiaeth hanesyddol fel pont gamlas gynnar o'r 19eg ganrif a addaswyd ar gyfer tramffordd

**Nodiadau:**

| | | |
|---|---|---|
| **Ward:** Dyffryn Clydach | **Anheddiad:** Mynachlog Nedd | **Enw'r Adeilad:** ADEILAD RHESTREDIG: Pont dros y gamlas i'r de o'r fynedfa i Fynachlog Nedd |
| **Cyf: LB: 11834** | | **Cyfeirnod Grid:** E273730 N197280 |
| **Cyfeiriad**: Ystâd Ddiwydiannol Mynachlog Nedd | | |
| Cynllun o Leoliad y Safle | | |



**Disgrifiad:** Pont gamlas grwca, cerrig rwbel gydag un bwa segmentaidd o voussoirs tywodfaen nadd. Parapetau isel gyda cherrig copa wedi'u llunio o flociau sorod copr petryal wedi'u castio, rhai yn cynnwys rhifolion Rhufeinig. Mae'r cynaliadau agor allan ryw fymryn bob ochr, ac estynnir hynny'n wal ar yr ochr dde-orllewinol. Mae'r hen lwybr halio yn croesi o ochr ddeheuol y gamlas i'r ochr ogleddol dros y bont.



**Rheswm dros Ddynodi:** Wedi'i chynnwys oherwydd diddordeb trafnidiaeth hanesyddol fel pont gamlas gynnar o'r 19eg ganrif, sydd wedi cadw ei chymeriad.

**Nodiadau:**

| | | |
|---|---|---|
| **Ward:** Dyffryn Clydach | **Anheddiad:** Mynachlog Nedd | **Enw'r Adeilad:** ADEILAD RHESTREDIG: Dyfrbont Clydach |
| **Cyf: LB: 82339** | | **Cyfeirnod Grid:** E273870 N197290 |
| **Cyfeiriad**: Ystâd Ddiwydiannol Mynachlog Nedd | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



**Disgrifiad:** Dyfrbont y gamlas, cerrig rwbel, dau fwa gyda thorddwr rhyngddynt. Mae'r bwâu'n segmentaidd, gyda voussoirs cerrig cul. Ar yr ochr ddeheuol mae parapetau cerrig rwbel gyda chopaon o flociau sorod crwm yn y canol a chynaliadau ar ffurf cromlinau cwadrant yn ymledu ar y ddwy ochr. I'r gorllewin mae gât llifddor gyda grisiau tywodfaen ar ongl sgwâr i'r afon a'r pileri gwledig. Dim parapetau ar yr ochr ogleddol, sydd wedi cael ei hatgyweirio'n helaeth â sment.





**Rheswm dros Ddynodi:** Cyfiawnhad dros Ystyried: Wedi'i chynnwys fel nodwedd hanesyddol bwysig ar gamlas bwysig yng Nghymru.

**Nodiadau:**

| | | |
|---|---|---|
| **Ward:** Gogledd Castell-nedd / De Bryncoch | **Anheddiad:** Castell-Nedd | **Enw'r Adeilad:** ADEILAD RHESTREDIG: Pont dros Gamlas Tenant yn ymyl Pont Afon Nedd (gan gynnwys waliau cynhaliol y llwybr halio a'r sianeli gorlif) |
| **Cyf:** **LB: 82079** | | **Cyfeirnod Grid:** E274991 N197817 |
| **Cyfeiriad**: Stryd y Bont | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



**Disgrifiad:** Pont y gamlas, bwa segmentaidd gyda voussoirs cerrig a pharapet uchel. Llwybr halio gyda waliau cynhaliol sy'n codi i'r heol dyrpeg gynt oedd yn croesi Afon Nedd yn y fan hon, ac sy'n disgyn oddi yno. I'r de o lwybr y gamlas ar hyd pont yr afon, ac yn rhedeg yn ymyl ac uwchlaw Afon Nedd mae'r afon a wal gynhaliol y llwybr halio, o gerrig rwbel rhesog. Yn fras o dan y pwynt lle mae llwybr halio'r gamlas yn dechrau codi i gyfeiriad y bont mae tri bwa cysylltiedig lled-eliptaidd i'r sianeli gorlifo. I'r de eto, ac yn rhan o'r un wal gynhaliol, mae bwa llifddor segmentaidd gyda pheirianwaith llifddor pren ar ochr orllewinol y llwybr halio.



**Rheswm dros Ddynodi:** Rhestrwyd oherwydd diddordeb hanesyddol fel pont ar y gamlas bwysig hon o ddechrau'r 19eg ganrif. Gwerth grŵp gyda'r bont yn ymyl dros Afon Nedd.

**Nodiadau:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ward:** Llangatwg | **Anheddiad:** Llangatwg | **Enw'r Adeilad:** Traphont Reilffordd | |
| **Cyf:** **TCA004** | Cam Dilysu I: | Cam II: | **Cyfeirnod Grid:** E275384 N198170 |
| **Cyfeiriad**: Yn ymyl ffordd ddeuol yr A465 | | | |



**Disgrifiad:** Traphont haearn sy'n cludo rheilffordd Bro Nedd dros y gamlas gyda pharapetau haearn bwrw addurniadol.





| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diddordeb pensaernïol | X | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad Hanesyddol / Diwylliannol | X | Gwerth o ran Cymeriad y Grŵp / yr Anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy'n Hen neu'n Brin | |

**Cyfiawnhad dros Ystyried:** Traphont reilffordd anghyffredin, addurniadol. Gwerth grŵp gyda phontydd a strwythurau eraill y gamlas.

**Nodiadau:** Coflein: Balwstrâd haearn bwrw addurniedig ar ochr dde-orllewinol y bont, a godwyd yn 1851 gan I K Brunel. Ychwanegiad: Mae'r gweddlun sy'n wynebu'r gogledd-ddwyrain hefyd yn cynnwys rhan fechan o barapet haearn bwrw.

<table>
<tr><td>Ward: Llangatwg</td><td>Anheddiad: Llangatwg</td><td colspan="2">Cyfeirnod Grid: ADEILAD RHESTREDIG: Traphont y Gamlas</td></tr>
<tr><td>Cyf: LB 82078</td><td colspan="2"></td><td>Cyfeirnod Grid: E275691 N198362</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfeiriad: I'r de-ddwyrain o Eglwys Sant Catwg</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cynllun o Leoliad y Safle<br></td></tr>
</table>

| |
|---|
| Disgrifiad: Pont y gamlas, cerrig rwbel, bwa segmentaidd sengl gyda voussoirs cerrig wedi'u torri mewn modd addurniedig. Mae'r cynaliadau'n troi allan rywfaint bob ochr. Rhywfaint o grwca, heb barapetau, a chyda gordyfiant sylweddol ar adeg yr arolwg (Mehefin 2003).<br> |
| **Rheswm dros Ddynodi:** Rhestrwyd oherwydd diddordeb hanesyddol fel pont ar y gamlas bwysig hon o ddechrau'r 19eg ganrif. |
| **Nodiadau:** |

| **Ward:** Llangatwg | **Anheddiad:** Llangatwg | **Enw'r Adeilad:** Traphont y Gamlas | |
|---|---|---|---|
| **Cyf: TCA005** | Cam Dilysu I: | Cam II: | **Cyfeirnod Grid:** E276567 N198971 |
| **Cyfeiriad**: I'r de-orllewin o Feithrinfa Betts | | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



**Disgrifiad:** Pont gamlas bwa cerrig, wedi'i haddasu â sylfaen goncrid i'r ffordd a rheiliau modern i gludo'r trac




| Diddordeb pensaernïol | | Diddordeb hanesyddol | X | Cysylltiad Hanesyddol / Diwylliannol | X | Gwerth o ran Cymeriad y Grŵp / yr Anheddiad | X | Adeiladau Lleol sy'n Hen neu'n Brin | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Cyfiawnhad dros Ystyried:** Pont gamlas garreg wreiddiol, ond wedi'i haddasu. Gwerth grŵp gyda strwythurau eraill y gamlas.

**Nodiadau:**

| | | |
|---|---|---|
| **Wards:** Aberdulais a Thonna | **Anheddiad:** Aberdulais | **Enw'r Adeilad:** HENEB GOFRESTREDIG: Dyfrbont Aberdulais |
| **Cyf: SM: GM506** | | **Cyfeirnod Grid:** E277291 N199292 |
| **Cyfeiriad**: Heol yr Orsaf | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



**Disgrifiad:** Gweddillion dyfrbont drawiadol o waith maen, gyda loc a tholldy'n rhan ohoni, ar Gamlas Tenant. Mae'r ddyfrbont ei hun ychydig dros 100m o hyd, gydag 11 bwa isel. Roedd y bwa mwyaf dwyreiniol, ger basn y gyffordd, o haearn bwrw er mwyn sicrhau'r cliriad mwyaf posibl dros sianel fordwyo gynnar ar yr afon (o'r 1740au) a thramffordd oedd yn rhedeg oddi tani. Gwaith maen oedd y deg bwa arall. Roedd y llwybr halio ar yr ochr i lawr yr afon, gyda pharapet cerrig nad oes ond darn bychan ohono'n goroesi bellach yn y pen dwyreiniol, gan fod y gweddill wedi cael ei glirio o ganlyniad i lifogydd. Roedd y loc yn cwrdd â'r ddyfrbont yn y pen gorllewinol, ac roedd yn nodweddiadol o ddimensiynau camlesi De Cymru, gan ei fod yn ddigon mawr ar gyfer cychod 18m o hyd gan 2.65m ar draws. Oherwydd cyfyngiadau traffig dyma oedd y lle mwyaf priodol ar gyfer y tolldy, sef strwythur bach cerrig gyda tho siâp pyramid yn ymyl y loc.



**Rheswm dros Ddynodi:** Mae'r gofeb o bwysigrwydd cenedlaethol fel un o ddyfrbontydd mwyaf unrhyw gamlas yn Ne Cymru, ac fel grŵp trawiadol o strwythurau camlas. Mae ganddi botensial archaeolegol sylweddol, gyda thebygolrwydd uchel o bresenoldeb nodweddion a gwaddodion archaeolegol cysylltiedig.

**Nodiadau:** Mae'r Heneb Gofrestredig yn cynnwys loc y gamlas a'r tolldy yn ymyl. Mae'r ddyfrbont, y loc a'r tolldy hefyd yn Adeiladau Rhestredig (Cyf. LB 22861/11838; 11836 a 11837).

| | | |
|---|---|---|
| **Ward:** Aberdulais | **Anheddiad:** Aberdulais | **Enw'r Adeilad:** ADEILAD RHESTREDIG: Loc Aberdulais |
| **Cyf: LB: 11836** | | **Cyfeirnod Grid:** E277256 N199275 |
| **Cyfeiriad**: Heol yr Orsaf | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



**Disgrifiad** Siambr loc gyda waliau paralel o gyrsiau cerrig. Mae gatiau pren y loc isaf wedi goroesi'n gyfan. Mae cilfachau gatiau'r loc uchaf yn dal i fodoli, ond mae wal wedi eu disodli.



**Rheswm dros Ddynodi:** Wedi'i chynnwys fel yr unig loc ar brif linell Camlas Tenant ac fel rhan o grŵp o strwythurau camlas yn Aberdulais sydd o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig.

**Nodiadau: Mae hefyd yn rhan o Heneb Gofrestredig Dyfrbont Aberdulais (GM506)**

| | | |
|---|---|---|
| **Ward:** Aberdulais | **Anheddiad:** Aberdulais | **Enw'r Adeilad:** ADEILAD RHESTREDIG: Swyddfa Ceidwad y Loc a'r Casglydd Tollau |
| **Cyf:** LB: 11837 | | **Cyfeirnod Grid:** E277258 N199265 |
| **Cyfeiriad**: Heol yr Orsaf | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



**Disgrifiad:** Swyddfa Ceidwad y Loc a'r Casglydd Tollau, un llawr, cerrig rwbel gyda tho llechi talcennog a stac cerrig yn y pen de-ddwyreiniol. Mae dwy ffrâm 12-cwarel yn y gweddlun gogledd-ddwyreiniol, gydag amgylchyniadau brics. Ar yr ochr ogledd-orllewinol mae drws metel canolog gyda ffenestr fechan wedi'i blocio ar y dde.



Google

**Rheswm dros Ddynodi:** Rhan amlwg o grŵp o strwythurau camlas yn Aberdulais sydd o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig.

**Nodiadau:** Mae hefyd yn rhan o Heneb Gofrestredig Dyfrbont Aberdulais (GM506)

| | | |
|---|---|---|
| **Wards:** Aberdulais a Thonna | **Anheddiad:** Aberdulais | **Enw'r Adeilad:** ADEILAD RHESTREDIG: Dyfrbont Aberdulais |
| **Cyf:** **LB: 11838/22861** | | **Cyfeirnod Grid:** E277314 N199303 |
| **Cyfeiriad**: Heol yr Orsaf | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



**Disgrifiad:** Dyfrbont 10-bae o gyrsiau cerrig rwbel, gyda chylchoedd bwa segmentaidd o gerrig nadd. Mae rhychwant anwastad i'r bwâu, gan eu bod yn lletach yn y canol. Mae capanau pyramig i'r torddwr siâp V i fyny'r afon. Mae llwybrau halio ar y ddwy ochr. Mae'r copaon yn rhannol o gerrig ac yn rhannol o frics. Mae'r ddyfrbont yn mynd i loc ar y lan orllewinol, ac mae ganddi gafn haearn bwrw gyda chopaon cerrig yn y pen dwyreiniol (sy'n mynd dros sianel flaenorol y bu modd teithio ar hyd-ddi yn y gorffennol) cyn cyrraedd Basn Aberdulais ar y lan ddwyreiniol.



**Rheswm dros Ddynodi:** Strwythur rhestredig Gradd II* oherwydd diddordeb archaeolegol diwydiannol, gan ei bod yn enghraifft wych o beirianneg camlas dechrau'r 19eg ganrif mewn lleoliad amlwg, ac oherwydd gwerth grŵp gydag eitemau rhestredig eraill cysylltiedig ar Gamlas Tenant yn Aberdulais.

**Nodiadau:** Mae hefyd yn rhan o Heneb Gofrestredig Dyfrbont Aberdulais (GM506)

| | | |
|---|---|---|
| **Ward:** Tonna | **Anheddiad:** Tonna | **Enw'r Adeilad:** ADEILAD RHESTREDIG: Basn Aberdulais |
| **Cyf: LB: 11839** | | **Cyfeirnod Grid:** E277380 N199370 |
| **Cyfeiriad**: Heol Dulais Fach | | |

Cynllun o Leoliad y Safle



| |
|---|
| **Disgrifiad:** Basn siâp afreolaidd, â leinin carreg, rhyw 100m x 20m, wedi'i lenwi'n rhannol â brwyn a chyrs adeg yr archwiliad (Hydref 1999). Yn y pen gogledd-ddwyreiniol mae'n ymuno â Chamlas Nedd (o dan Bont Gam, tra bod y pen de-orllewinol, sydd bellach wedi'i fewnlenwi, yn ymuno â Dyfrbont Aberdulais. Yn wreiddiol roedd llithrfa goncrid ar yr ochr dde-ddwyreiniol yn cysylltu â doc sych (sydd bellach wedi'i fewnlenwi).<br><br>[Dim ffotograffau] |
| **Rheswm dros Ddynodi:** Rhestrwyd oherwydd diddordeb archaeolegol diwydiannol fel strwythur camlas cynnar o'r 19eg ganrif, ac oherwydd gwerth grŵp gydag eitemau rhestredig eraill cysylltiedig ar Gamlas Tenant yn Aberdulais. |
| **Nodiadau:** |

| | | |
|---|---|---|
| **Ward:** Tonna | **Anheddiad:** Tonna | **Enw'r Adeilad:** ADEILAD RHESTREDIG: Pont Gam |
| **Ref: LB: 11840** | | **Cyfeirnod Grid:** E277388 N199429 |
| **Cyfeiriad**: Heol Dulais Fach | | |

Cynllun o Leoliad y Safle




| |
|---|
| **Disgrifiad:** Pont uchel un bwa o gyrsiau tywodfaen. Mae cylch bwa addurniedig i'r bwa segmentaidd. Ar yr ochr dde-ddwyreiniol mae torddwr grisiog, crwm, lle mae Camlesi Nedd a Thenant yn dod ynghyd. I'r de-orllewin mae dyfodiad ar hyd ramp, ar ongl i'r parapet, sy'n bargodi allan dros y cynhaliad ar yr ochr ddwyreiniol. Ar yr ochr ogleddol, mae'r parapetau'n ffurfio cromlinau ar ongl aciwt, ac yn bargodi allan dros y cynhaliad ar yr ochr orllewinol. Mae pob un o'r parapetau'n gostwng i lefel y dŵr, ac wedi cadw llawer o'r copaon cerrig gwastad gwreiddiol, ond maent hefyd wedi'u hadnewyddu'n rhannol â choncrid, yn arbennig ar yr ochr ddwyreiniol.<br><br>[Dim ffotograffau] |
| **Rheswm dros Ddynodi:** Rhestrwyd oherwydd diddordeb archaeolegol diwydiannol fel strwythur camlas cynnar o'r 19eg ganrif, ac oherwydd gwerth grŵp gydag eitemau rhestredig eraill cysylltiedig ar Gamlas Tenant yn Aberdulais. Credir mai dyma'r bont bwa crwca gynharaf yng Nghymru. |
| **Nodiadau:** |

## Camlas Nedd

